

Post Penalltau

01443 862974

ysgolpenalltau@sch.caerphilly.gov.uk

ysgolpenalltau.com



Post Penalltau – 23/09/2026

SCROLL DOWN FOR ENGLISH VERSION



PAWB

ATGOF: Cyfarfodydd Cynnydd Disgyblion

Bydd ein **Cyfarfodydd Cynnydd Disgyblion** yn cael eu cynnal ar **Ddydd Mawrth 13 Hydref 2026** a **Dydd Iau 15 Hydref 2026**. Mae'r cyfarfodydd hyn yn gyfle pwysig i drafod cynnydd, cyflawniadau a'r camau nesaf yn nysgu eich plentyn gyda'i athro neu athrawes ddosbarth.

Er mwyn cynnig mwy o hyblygrwydd i deuluoedd, bydd **Dosbarth Branwen** hefyd yn cynnig slotiau apwyntiad ychwanegol yn y bore ar **Ddydd Gwener 16 Hydref 2026**.

Bydd linc ar gyfer arbed slot er mwyn cwrdd gyda'r athrawes eich phlentyn yn cael eu ddarparu i chi ar ddydd Llun.



PAWB

ATGOF: Adolygiad o'r Polisi Ymddygiad

Yn Ysgol Gymraeg Penalltau, rydym yn falch o'r safonau uchel o les, gofal ac ymddygiad sydd i'w gweld ar draws yr ysgol. Yn ei harolygiad diweddar, nododd Estyn:

"Mae'r ysgol yn hyrwyddo lles, gofal a chymorth disgyblion yn hynod effeithiol."

Nododd Estyn hefyd:

"Mae bron pob disgybl yn ymddwyn yn dda yn ystod eu gweithgareddau, wrth ddysgu'n annibynnol, ac wrth chwarae gyda'u ffrindiau."

Fel rhan o'n cylch rheolaidd o adolygu polisïau ysgol, rydym ar hyn o bryd yn adolygu ein Polisi Ymddygiad. Mae ceisio barn rhanddeiliaid yn rhan bwysig o'r broses hon ac yn helpu i sicrhau bod ein polisïau yn parhau i adlewyrchu gwerthoedd a dyheadau cymuned ein hysgol.

Yn ogystal â'r adolygiad, rydym yn gweithio gyda disgyblion a staff i barhau i sicrhau bod disgwyliadau ynghylch ymddygiad yn glir, yn gyson ac yn cael eu deall gan bawb.

Byddem yn croesawu barn rhieni a gofalmwr fel rhan o'r adolygiad hwn. Defnyddiwch y ddolen isod i rannu eich safbwyntiau a'ch awgrymiadau.

<https://forms.cloud.microsoft/e/s73x2k3i3d?origin=IprLink>



BLWYDDYN 6

ATGOF: CWM RHYMNI - Cyfarfod Pontio i Ddisgyblion a Rhieni

Bydd Ysgol Gyfun Cwm Rhymni yn cynnal sesiwn yn Ysgol Gymraeg Penalltau ar ddydd Llun 28ain o Fedi am 3:30pm ar gyfer plant a rhieni blwyddyn 6 fel rhan o'r cynllun pontio i'r uwchradd. Bydd hyn yn gyfle gwyh i chi a'ch plant dod i adnabod rhai o staff ac arferion yr Ysgol.

Bydd Cwm Rhymni hefyd yn cynnal noson agored i rieni yn Ysgol Gyfun Cwm Rhymni ar 29ain Medi am 5:30pm.

PAWB

Cyfarfod Cyffredinol Blynyddol y Gymdeithas Rhieni ac Athrawon

Estynnwn wahoddiad cynnes i chi i ymuno â ni ar gyfer y cyfarfod CRhA sydd i ddod ar ddydd Mawrth, Medi 29ain am 4pm yn yr ysgol.

Mae'r Gymdeithas Rhieni ac Athrawon yn chwarae rhan hollbwysig yng nghymuned ein hysgol drwy feithrin cydweithrediad rhwng rhieni ac addysgwyr. Trwy eu hymdrechion ymroddedig, maent yn helpu i drefnu digwyddiadau a gweithgareddau sy'n cyfoethogi profiad addysgol ein plant. Mae llawer wedi'i gynllunio ar gyfer eleni ac rydym angen eich help!

Un o gyfraniadau allweddol y Gymdeithas Rhieni ac Athrawon yw codi arian. Mae'r arian a godir o fudd uniongyrchol i'n plant trwy ariannu adnoddau hanfodol, cefnogi gweithgareddau allgyrsiol, a gwella'r amgylchedd dysgu cyffredinol. Mae eich cyfranogiad a'ch cefnogaeth yn hanfodol i barhau â'r ymdrechion hyn, gan eu bod yn ein galluogi i ddarparu hyd yn oed mwy o gyfleoedd a gwelliannau i'n plant

Rydym yn annog llawer o rieni i fynychu a chymryd rhan. Bydd eich presenoldeb a'ch mewnbwn yn helpu i gryfhau cymuned ein hysgol a sicrhau bod ein plant yn cael yr addysg orau bosibl.



Blwyddyn 5

Trip Preswyl Abernant

Rydym yn edrych ymlaen yn fawr at daith breswyl mis Ionawr i Abernant ar gyfer ein disgyblion Blwyddyn 5. Gofynnwn yn garedig i flaendal cychwynnol o £50 gael ei dalu i dderbynfa'r ysgol erbyn 12 Hydref.



PAWB

Brechlyn Chwistrell FfliwTrwynol i Ddisgyblion

Bydd y Gwasanaeth Nyrsio Mewn Ysgolion yn ymweld â'r ysgol i gynnig brechlyn chwistrell fflw trwynol i ddisgyblion ar 03/10/2025

Mae'r GIG yn argymhell bod eich plentyn yn cael brechlyn y fflw bob blwyddyn.

Mae'n bwysig iawn amddiffyn eich plentyn rhag y fflw er mwyn sicrhau eu bod yn aros mor iach â phosibl. Y brechlyn fflw gorau i'r rhan fwyaf o blant yw chwistrell drwynol. Dyma'r brechlyn a fydd yn cael ei roi ar y diwrnod.

Mae'r ffurflen ganiatâd ar-lein a gwybodaeth ychwanegol ar gael yma: [Dolen i'r Ffurflen Ganiatâd Electronig](#).

Er mwyn helpu i sicrhau bod y brechlyn yn addas i'ch plentyn, a sicrhau nad ydyn nhw'n colli allan, cymerwch amser i ddarllen y wybodaeth a dilynwch y ddolen er mwyn cwblhau'r ffurflen ganiatâd electronig cyn gynted â phosibl, cyn y dyddiad sydd wedi'i bennu ar gyfer y brechlyn.

Y brechlyn fflw chwistrell drwynol sy'n cynnwys gelatin moch sy'n rhoi'r amddiffyniad gorau rhag fflw i blant. Os ydych chi eisiau i'ch plentyn gael eu hamddiffyn rhag y Fflw, ond nad ydych chi eisiau iddynt gael y chwistrell trwyn, gallwch ofyn am y pigiad heb gelatin yn lle hynny ar y ffurflen ganiatâd a byddwch yn cael eich gwahodd i glinig.

Os ydych yn cael unrhyw anawsterau wrth geisio cael mynediad i'r ddolen uchod, cysylltwch â 01633 431685 am gymorth pellach.



EVERYONE

REMINDER: Pupil Progress Meetings

Our Pupil Progress Meetings will take place on **Tuesday 13th October 2026** and **Thursday 15th October 2026**. These meetings provide an important opportunity to discuss your child's progress, achievements and next steps in learning with their class teacher.

To provide additional flexibility for families, **Branwen Class** will also have extra morning appointment slots available on **Friday 16th October 2026**.

We will be sharing a link on Monday in order for parents to book their slots.



Behaviour Policy Review

REMINDER: Behaviour Policy Review

At Ysgol Gymraeg Penalltau, we are proud of the high standards of wellbeing, care and behaviour evident across our school. In its recent inspection, Estyn highlighted that:

"The school fosters pupils' well-being, care and support extremely effectively."

Estyn also noted that:

"Almost all pupils behave well during their activities, when learning independently, and when playing with their friends."

As part of our regular cycle of reviewing school policies, we are currently reviewing our Behaviour Policy. Seeking the views of stakeholders is an important part of this process and helps to ensure that our policies continue to reflect the values and aspirations of our school community.

Alongside the review, we are working with pupils and staff to continue to ensure that expectations around behaviour are clear, consistent and understood by everyone.

We would welcome the views of parents and carers as part of this review. Please use the link below to share your thoughts and suggestions.

<https://forms.cloud.microsoft/e/s73x2k3i3d?origin=lprLink>



REMINDER: CWM RHYMNI - Transition Meeting for Pupils and Parents

Ysgol Gyfun Cwm Rhymni will hold a session at Ysgol Gymraeg Penalltau on Monday 28th of September at 3:30pm for year 6 children and parents as part of the transition plan to secondary school. This will be a great opportunity for you and your children to get to know some of the School's staff and more about the school itself.

Cwm Rhymni will also be holding an open evening for parents at Ysgol Gyfun Cwm Rhymni on 29th of September at 5:30.

EVERYONE

Parent Teacher Association Annual General Meeting

We extend a warm invitation to you to join us for the upcoming PTA meeting on Tuesday, September 29th at 4pm, at the school. which will be held at the Plough pub in Cascade. The Parent Teacher Association plays a vital role in our school community by fostering collaboration between parents and educators. Through their dedicated efforts, they help organize events and activities that enrich the educational experience of our children. We have a lot planned for this year and we need your help!

One of the PTA's key contributions is fundraising. The money raised directly benefits our children by funding essential resources, supporting extracurricular activities, and improving the overall learning environment. Your participation and support is essential to continue these efforts, as they enable us to provide even more opportunities and improvements for our children

We encourage as many parents as possible to attend and participate. Your presence and input will help to strengthen our school community and ensure that our children receive the best possible education.



Year 5

Abernant Residential Trip

We are really looking forward to January's residential trip to Abernant for our Year 5 pupils. We ask kindly that an initial deposit of £50 be paid to the school reception by October 12th.



EVERYONE

FLU VACCINE

The School Nursing Service will visit the school to offer pupils a **nasal flu spray vaccine on 03/10/2025**

The NHS recommends that your child has a flu vaccination every year.

It's very important to protect your child from flu to make sure they stay as healthy as possible. The best flu vaccine for most children is a nasal spray. This is the vaccine that will be given on the day.

The online consent form and additional information can be found here: [E- Consent Form Link](#)

To help make sure the vaccine is suitable for your child, and they don't miss out, please take time to read the information and **follow the link to complete the electronic consent form as soon as possible, before the planned vaccination date.**

The nose spray flu vaccine that contains porcine gelatine is the best protection against flu for children. If you want to have your child protected against Flu, but you do not want them to have the nose spray, you can request the gelatine free injection instead on the consent form and you will be invited to a clinic.

Should you have any difficulties accessing the above link, please contact **01633 431685** for further support.

Cysylltiadau pwysig a all fod o ddefnydd i chi / Important contact details that could be of use to you:

Caerphilly Employment Support: 01443 864227

Samaritans: 116 123 (24 awr y dydd / 24 hours a day)

Wales Domestic Abuse Helpline: 0808 80 10 800 (8.00am-2.00pm & 8.00pm-2.00am pob dydd / every day).

Mind Cymru: 0300 123 3393

Childline: 0800 1111 (24 awr y dydd / 24 hours a day)

Women's Aid: 01495 742061 (24 awr y dydd / 24 hours a day)

Eastern Valley Food Bank: 01495 760605

Mae Croeso i chi gysylltu gyda Ysgol Gymraeg Penalltau yn Gymraeg neu Saesneg
You are welcome to contact Ysgol Gymraeg Penalltau in Welsh or English

